# #ChwyldroadauBychain 5 – Boreau Coffi Symudol

Mae'r Chwyldro Bach yma'n dod gan Bethan Page, Llysgennad Palasau Hwyl Gogledd Cymru.  Yn y Chwyldro Bach yma mae hi'n rhannu syniadau ar gynnal boreau coffi ar Zoom.

**Sut i Drefnu Bore Coffi Wythnosol ar Zoom**

1. Wedi i chi ddewis diwrnod o'r wythnos ac amser, rhowch gyhoeddusrwydd i'r Bore Coffi ar grwpiau cyfryngau cymdeithasol lleol, ar 'feed' eich hunain neu i'w gadw yn fach rhannwch y manylion hefo grŵp bach o ffrindiau. Bydd angen i chi gynnwys gwahoddiad Zoom. Mae cyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn ar-lein, neu gofynnwch i rywun sydd wedi ei wneud o'r blaen i'w drefnu. Os fyddwch yn defnyddio cyfrif Zoom sydd am ddim, bydd eich bore coffi ddim ond yn para am 40 munud.

2. Peidiwch â chael eich siomi os fydd dim ond un neu ddau o bobl yn troi i fyny – mae dal yn gyfle i sgwrsio! Daliwch i droi i fyny ar yr run un amser bob wythnos a gweld sut mai'n mynd.

3. Daliwch ati i roi cyhoeddusrwydd i'r bore coffi bob wythnos, y diwrnod cyn y digwyddiad. Gyda chaniatâd rheiny sy'n troi i fyny gallwch dynnu screenshot i'w rannu ar y cyfryngau cymdeithasol i annog eraill i ymuno hefo chi.

4. Fel mae mwy o bobl yn troi i fyny, sicrhewch fod pobl yn cael eu cyflwyno neu yn cyflwyno eu hunain. Meddyliwch am ffyrdd addfwyn i annog pobl i sgwrsio, er enghraifft rhowch wahoddiad i bawb ddod ag eitem hefo nhw sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw, sy'n ddiddorol a chymerwch dro i siarad amdanynt. Neu gofynnwch a oes gan rywun risait, dechneg grefftau neu hobi fydden nhw'n hoffi ei rannu – rhywbeth sy'n cymryd ddim mwy na 5 munud i'w ddisgrifio – bydd pobl yn gofyn cwestiynau ac yn gofyn am y risait / cyfarwyddiadau – mae'n ffordd wych o ael bobl i sgwrsio!

   Ceisiwch ymlacio, mwynhewch gyfleoedd i wrando a pheidiwch â phoeni os oes yna sbeliau bach o ddistawrwydd lletchwith. Fe ddywedith rhywun rhywbeth a bydd y sgwrs yn cychwyn eto.Os hoffech gymryd screenshot o bawb, gofynnwch eu caniatad yn gyntaf.

5. Cofiwch gadw llygad ar yr amser! Os ydech chi ar gyfrif Zoom sydd am ddim, dechreuwch ddiolch i bawb am ddod ychydig o funudau cyn i'r 40 munud ddod i ben – mae'n siomedig ac yn sioc pan mae'r cyfarfod yn gorffen yn sydyn a dydech chi heb gael cyfle i ddweud ffarwel!



